Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Priory Gogledd Cymru

# Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Priory Gogledd Cymru

Mae Coleg Priory Gogledd Cymru yn goleg arbenigol annibynnol, wedi'i leoli wrth ymyl campws Wrecsam y sefydliad addysg bellach sy'n gwasanaethu gogledd Cymru.

Sefydlwyd Coleg Priory Gogledd Cymru yn 2011 a chaiff ei weinyddu gan Priory Education Services, sy'n rhan o'r Priory Group ehangach.

Mae'r coleg yn cynnig lleoliadau dydd i oedolion ifanc 16 i 25 oed ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig a chyflyrau cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae 36 o ddysgwyr yn y coleg. Daw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr i'r coleg o'r ardal leol.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cael eu haddysg yn llwyr yn y coleg ac yn dilyn cyrsiau lefel cyn-mynediad a mynediad, gan gynnwys medrau byw'n annibynnol. Mae'r dysgwyr eraill yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Cambria. Maent yn astudio amrywiaeth eang o gyrsiau, o lefel mynediad i TGAU. Mae'r holl ddysgwyr, ni waeth ble y mae eu prif fan astudio, yn cael cymorth yn y dosbarth a chymorth ychwanegol gan staff Coleg Priory.

Mae'r pennaeth addysg wedi bod yn ei swydd er Mehefin 2017.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae’r coleg yn dechrau mynd i’r afael ag argymhellion ymweliadau blaenorol yn briodol. Fodd bynnag, mae cynnydd yn rhy araf o hyd.

Mae dysgwyr yn elwa o’r cynnydd ym muddsoddiad y cwmni mewn darpariaeth iaith a lleferydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cyfathrebu dysgwyr, gan gynnwys iaith arwyddion lle bo hynny’n briodol.

Mae’r coleg yn cefnogi staff yn dda i ymgymryd â hyfforddiant i wella’u medrau. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ar anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, gwella medrau cyfathrebu dysgwyr a rheoli ymddygiad heriol.

Mae dysgwyr a staff sy’n mynychu’r coleg addysg bellach wedi integreiddio’n llawn i fywyd y coleg a’i raglenni. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn ac mae ychydig bach iawn o ddysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol.

Mae’r berthynas waith rhwng staff cymorth a dysgwyr yn nodwedd gref o waith y coleg. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lwyddiant dysgwyr, yn enwedig y rhai sy’n manteisio ar ddarpariaeth brif ffrwd.

### Meysydd i’w datblygu

Nid yw’r coleg yn cydnabod medrau blaenorol dysgwyr yn ddigon da. Nid yw bob amser yn adeiladu ar eu dysgu a’u profiadau blaenorol er mwyn cefnogi cynnydd parhaus mewn meysydd fel nifer dyddiol yr oriau o ddysgu, teithio’n annibynnol a rhaglen waith lawn.

Nid yw partneriaethau ag ysgolion bwydo a darparwyr eraill wedi’u datblygu’n ddigonol. Mae hyn yn golygu nad oes gan y coleg wybodaeth helaeth am anghenion dysgwyr i ategu cynllunio cynnar cyn i’r dysgwyr ddechrau yn y coleg.

Nid yw’r systemau ar gyfer nodi a chofnodi digwyddiadau yn glir. Mae hyn yn golygu bod cofnodion a chadw cofnodion yn anghyson.

Nid yw targedau dysgwyr yn nodi’n gyson gamau dysgu byr sy’n hawdd eu mesur ac yn ystyrlon. O ganlyniad, nid yw dysgwyr na staff bob amser yn glir am y camau nesaf y mae eu hangen i wneud cynnydd.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 Sicrhau bod dysgwyr yn adeiladu ar eu dysgu a'u profiadau blaenorol yn ystod eu cyfnod yn y coleg

A2 Sicrhau bod targedau dysgwyr yn glir ac yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn gyson

A3 Gwella'r partneriaethau gwaith gydag ysgolion bwydo i sicrhau bod cynllunio'n cael ei wneud yn gynnar ar gyfer pontio effeithiol

A4 Datblygu a gweithredu strategaeth glir ar gyfer nodi a chofnodi digwyddiadau'n effeithiol.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella'r prosesau ar gyfer coladu a dadansoddi data fel bod y coleg yn cael golwg clir o'r cynnydd cyffredinol a wna dysgwyr**

Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi buddsoddi mewn system rheoli gwybodaeth newydd i wella ei brosesau i gasglu, coladu a dadansoddi data. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn ac nid yw ar waith yn y coleg eto.

Mae'r coleg wedi rhoi amrywiaeth ddefnyddiol o systemau ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn erbyn amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys cymwysterau a datblygiad personol. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi darlun cyffredinol, cywir i'r coleg o gynnydd ac nid ydynt yn llywio cynllunio strategol.

Mae staff yn cynnal ystod briodol o asesiadau pan fydd dysgwr yn dechrau yn y coleg. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael am ddysgwyr gan ysgolion bwydo i ategu cynllunio.

**Argymhelliad 2: Adolygu'r cytundeb partneriaeth gyda'r coleg addysg bellach i sicrhau cydgynllunio strategol effeithiol**

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi diwygio ei gontract gyda'r darparwr addysg bellach lleol i gadarnhau a gwella'r bartneriaeth weithio. Bellach, mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae polisi newydd ar rannu data yn galluogi'r ddau goleg i rannu gwybodaeth berthnasol ac mae hyn wedi gwella'r cyfathrebu. O ganlyniad, mae mwy o ddealltwriaeth o flaenoriaethau i fodloni anghenion dysgwyr unigol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cydgynllunio ar gyfer dysgwyr sydd angen treulio 12 mis gyda'r Priory cyn dilyn cyrsiau yn y coleg addysg bellach, ac mae'n rhy gynnar eto i weld yr effaith ar gynnydd dysgwyr.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod gan y coleg ddigon o adnoddau TGCh ac arbenigedd i gefnogi dysgu**

Mae'r coleg wedi defnyddio gwasanaeth ymgynghorol allanol yn dda i archwilio'i ddarpariaeth a medrau ei staff.

Mae'r coleg wedi gwella adnoddau ac wedi rhoi hyfforddiant priodol i staff i wella'u hyder a datblygu'u hymwybyddiaeth o'r modd y gall technoleg gefnogi dysgwyr. Mae staff wedi ymweld â darparwyr eraill i ddysgu am y ffordd y gallai defnyddio technoleg gynorthwyol gefnogi medrau cyfathrebu dysgwyr.

Mae byrddau gwyn rhyngweithiol ym mron bob un o'r ystafelloedd dosbarth ac mae staff yn eu defnyddio'n dda i gefnogi dysgu ac addysgu. Mae cyfrifiaduron ar gael yn briodol i ddysgwyr a defnyddiant y rhain yn dda i ymestyn eu gwaith a'u dysgu ar draws y cwricwlwm.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/06/2019